



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad:

**Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad ar
drefniadau arolygu Estyn ar gyfer gwasanaethau
ieuenctid o 2024**

Mehefin 2023

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
2. Methodoleg.....	1
3. Proffil ymatebwyr.....	1
4. Canlyniadau	3
4.1 Arolygiadau Gwaith leuencid.....	3
4.2 Adrodd ar arolygiadau.....	6
4.3 Effaith y cynigion.....	9
4.4 Gweithgarwch dilynol posibl.....	9
5. Y Camau Nesaf.....	9

Ymatebion i'r ymgynghoriad ar drefniadau arolygu Estyn ar gyfer gwasanaethau ieuenctid o 2024

1. Cyflwyniad

Yn haf 2023, cynhaliom ymgynghoriad cyhoeddus ar ein trefniadau arolygu ar gyfer gwasanaethau ieuenctid. Roedd hyn i sicrhau bod safbwyntiau rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn sut rydym yn ymdrin ag arolygu o 2024 ymlaen.


2. Methodoleg

Roedd yr ymgynghoriad ar ffurf arolwg a oedd ar gael i'w lenwi naill ai ar-lein neu oddi ar-lein (dogfen Word i'w chwblhau a'i dychwelyd trwy'r e-bost neu'r post). Lansiom yr arolwg ar 18 Ebrill 2023, a chaeodd ar 15 Mai 2023.

3. Proffil ymatebwyr


Cawsom gyfanswm o 56 o ymatebion i'r ymgynghoriad (proffil yn ffigur 1). O'r rhai a ymatebodd 'arall', roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolaeth o sectorau ehangach (2 academydd, 2 ddarparwr hyfforddiant gwaith ieuenctid, 2 ymddiriedolwr a chyfarwyddwr elusennau ieuenctid, rhiant, swyddog cymorth gwaith ieuenctid strategol, 2 bennaeth gwasanaeth awdurdod lleol, rheolwr Dug Caeredin a pholisi ieuenctid cenedlaethol).

Ffigur 1: Dewiswch un opsiwn isod sy'n disgrifio orau ym mha rinwedd rydych chi'n llenwi'r holiadur hwn.



Gofynnwyd i ymatebwyr pa faes gwaith ieuenctid oedd fwyaf o ddiddordeb iddynt neu yr oeddent yn cael eu cyflogi ynddo. Roedd ymatebwyr yn gallu dewis yr holl feysydd a oedd yn berthnasol iddynt, felly nid yw'r canrannau ar gyfer y cwestiwn hwn yn gwneud cyfanswm o 100. O'r ymatebion, rhoddodd 60% 'Awdurdod Lleol', rhoddodd 39% 'Sector Gwirfoddol' a rhoddodd 13% 'Arall' (gan gynnwys CGA, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, addysg, SAU, adolygu ansawdd a monitro, partneriaethau a'r sector gwirfoddol, hyfforddiant gwaith ieuenctid).

Ffigur 2: Pa faes gwaith ieuenctid sydd fwyaf o ddiddordeb i chi neu yr ydych yn cael eich cyflogi ynddo?



Wedi ateb: 54 Wedi hepgor: 2

O'r ymatebwyr a nododd eu bod yn perthyn i sefydliad, roedd y rhain yn cynnwys:


- 8 sefydliad llywodraeth leol
- 7 sefydliad gwasanaethau ieuenctid y trydydd sector

4. Canlyniadau

4.1 Arolygu Gwaith Ieuenctid

Yn gyntaf, gofynnwyd i ymatebwyr beth oedd eu barn ar y cynnig y dylai arolygiadau gwaith ieuenctid fod yn arolygiadau ar eu pennau eu hunain. Roedd wyth deg y cant o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf (39%) neu'n cytuno (41%) â'r cynnig, a deuddeg y cant naill ai'n anghytuno (6%) neu'n anghytuno'n gryf (6%). Roedd naw y cant o ymatebwyr yn ansicr neu nid oedd ganddynt farn.

Ffigur 3: Rydym yn cynnig y dylai arolygiadau gwaith ieuenctid fod yn arolygiadau ar eu pennau eu hunain. Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?



Wedi ateb: 54 Wedi hepgor: 2


Teimlai llawer o ymatebwyr y byddai arolygiadau ar eu pennau eu hunain yn rhoi'r proffil a'r gydnabyddiaeth mae'n ei haeddu i waith ieuenctid – a fydd yn arwain at “ffocws cynyddol”, a bydd yn ychwanegu “dilysrwydd at y proffesiwn”. Bydd hefyd “yn galluogi Uwch Arweinwyr a Gweithwyr Ieuenctid i ddatblygu a gwella darpariaeth gwaith ieuenctid ar gyfer pobl ifanc” ac “yn darparu fframwaith i ychwanegu at strwythurau presennol sy'n cyfeirio gwaith ieuenctid, er enghraifft y Marc Ansawdd a threfniadau mwy lleol ar gyfer llywodraethu a gwelliant”.

Bydd arolygiadau ar eu pennau eu hunain hefyd “yn codi ymwybyddiaeth am effaith a buddion gwaith ieuenctid, yn ei rinwedd ei hun, ac nid fel gwasanaeth atodol i ysgolion, sy'n aml yn digwydd mewn Awdurdodau Lleol”. Byddant hefyd yn helpu atal “gwaith ieuenctid rhag mynd ar goll mewn arolygiadau addysg”.

Roedd nifer fach yn nodi pryderon y gallai mwy o arolygiadau arwain at fwy o bwysau ar y gweithlu a gallai gael effaith negyddol ar bobl ifanc “trwy ychwanegu mwy o arolygiadau, rydych chi'n cynyddu rhwystrau, a fydd yn lleihau gwaith wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc sydd ei angen yn fawr”.

Wedyn, gofynnem ni am y cynnig y dylid cysylltu'r arolygiadau ieuenctid ag arolygiadau GAALI, fel bod y gwerthusiadau o'r arolygiad ieuenctid yn llywio ac yn cyfrannu at yr arolygiadau GAALI ehangach. Roedd chwe deg pedwar y cant o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf (20%) neu'n cytuno (44%) â'r cynnig, ac roedd dau ddeg un y cant naill ai'n anghytuno (19%) neu'n anghytuno'n gryf (2%). Roedd un deg pump y cant o ymatebwyr yn ansicr neu nid oedd ganddynt farn.

Ffigur 4: Rydym hefyd yn cynnig y dylid cysylltu arolygiadau ieuenctid ag arolygiadau GAALI fel bod y gwerthusiadau o'r arolygiad ieuenctid yn gallu llywio a chyfrannu at yr arolygiadau GAALI ehangach. Beth yw eich barn am y cynnig hwn?




Wedi ateb: 54 Wedi hepgor: 2

Teimlai sawl ymatebwr fod “angen rhywfaint o gysylltiad â'r arolygiadau GAALI gan y bydd hyn yn helpu â chysondeb wrth wneud penderfyniadau strategol o fewn yr awdurdod lleol.” Hefyd, “Y bobl ifanc mewn ardal yn gyffredinol yw'r un bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r ddau arolygiad – dylid rhoi'r brif ystyriaeth i'w hanghenion mewn unrhyw ddarpariaethau.”

Roedd rhai yn nodi y byddai angen arbenigedd mewn gwaith ieuenctid wrth gynnal yr arolygiad gan ei fod yn faes arbenigol. Roedd yna gefnogaeth unfrydol, bron, i'r syniad y dylai'r fframwaith arolygu adlewyrchu egwyddorion a dibenion gwaith ieuenctid. Roedd naw deg chwech y cant o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf (63%) neu'n cytuno (33%) â'r cynnig. Doedd neb yn anghytuno. Roedd pedwar y cant o ymatebwyr yn ansicr neu nid oedd ganddynt farn.

Ffigur 5: Ydych chi'n cytuno y dylai'r fframwaith arolygu adlewyrchu egwyddorion a dibenion gwaith ieuenctid?



Wedi ateb: 54 Wedi hepgor: 2

Teimlai llawer o ymatebwyr y dylai'r fframwaith arolygu adlewyrchu egwyddorion a dibenion gwaith ieuenctid, ond bod yn rhaid ystyried fframweithiau a safonau eraill

hefyd; “Mae’r egwyddorion a’r dibenion wedi cael eu diweddarau yn ddiweddar (2022), ac yn eiddo i’r sector, felly maent yn bwynt cyfeirio da. Dylai unrhyw fframwaith arolygu ystyried y Marc Ansawdd Gwaith Ieuenctid a’r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol hefyd.”

Pan ofynnwyd iddynt ystyried sut dylem ni fesur y deilliannau mewn arolygiadau gwaith ieuenctid, teimlai llawer o ymatebwyr fod hyn yn anodd, os nad yn amhosibl oherwydd yr anhawster i “osod ‘deilliannau’ cyffredinol sy’n gallu adlewyrchu blaenoriaethau pobl ifanc o wahanol gymunedau yn ddigonol; deilliannau a blaenoriaethau a allai amrywio’n fawr”. Hefyd, “Mae mesur allbynnau fel achrediad a chyrhaeddiad yn llai ystyrion mewn addysg nad yw’n ffurfiol, mae’r pellter a deithiwyd yn ennyn mwy o ddiddordeb.”

Awgrymwyd sawl ateb i’r broblem hon, gan gynnwys “Yn hytrach na ‘deilliannau’, gallai ‘dangosyddion’ effaith a gwerth ddeillio o dystiolaeth bresennol a gasglwyd trwy ddogfennau monitro nodweddiadol a nodiadau arfer fyfyrion, gan gynnwys arsylwadau anecdotaidd. Ni ddylai fod yna unrhyw gynnydd gorfodol yn y baich gweinyddol ar weithwyr ieuenctid” a “Dylid deall y term deilliant nid fel deilliannau terfynol ynddo’u hunain, ond yn hytrach yn ddangosyddion cynnydd ar hyd llwybr bywyd llwyddiannus.”

Rhybuddiodd llawer o ymatebwyr am ganolbwyntio gormod ar fesurau a deilliannau, er enghraifft, “Mae perygl y bydd hyn yn canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei fesur ond yn lleihau’r gwasanaeth i ganolbwyntio ar y pethau hynny. Bydd gan bob cymuned a gwasanaeth eu blaenoriaethau eu hunain”.

Gofynnwn ni hefyd, ‘sut dylem ni gynnwys pobl ifanc yn y broses arolygu?’ Soniodd llawer o ymatebwyr am sefydlu “Panel arolygu pobl ifanc” fel y gallent weithredu “fel pobl ifanc sy’n arolygwyr cymheiriaid, ond byddai’n bwysig dod o hyd i amrywiaeth eang o bobl ifanc sy’n gysylltiedig â gwaith ieuenctid.”


Roedd yna neges gref hefyd fod pobl ifanc yn rhanddeiliaid allweddol, ac o’r herwydd, dylent fod yn ganolog i bopeth, gan gynnwys unrhyw broses arolygu.

Soniwyd am ddulliau eraill o gynnwys pobl ifanc yn y broses arolygu, gan gynnwys holiaduron dienw, cyfweiliadau (anffurfiol) a sefydlu Fforwm Ieuenctid, lle byddai pobl ifanc yn rhydd i fynegi eu barn yn agored ac yn onest.

4.2 Adrodd ar arolygiadau

Gofynnwn i ymatebwyr beth oedd eu barn ar y cynnig i hyfforddi a defnyddio ymarferwyr fel arolygwyr cymheiriaid. Roedd cefnogaeth unfrydol, bron; roedd naw deg chwech y cant o ymatebwyr naill ai’n cytuno’n gryf (63%) neu’n cytuno (33%) â’r cynnig. Doedd neb yn anghytuno. Roedd pedwar y cant o ymatebwyr yn ansicr neu nid oedd ganddynt farn.

Ffigur 6: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i hyfforddi a defnyddio ymarferwyr fel arolygwyr cymheiriaid?



Wedi ateb: 52 Wedi hepgor: 4

Adlewyrchwyd y gefnogaeth gref ar gyfer defnyddio ymarferwyr fel arolygwyr cymheiriaid yn y sylwadau. Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno bod “Gweithwyr ieuencid yn deall y sector ac mae ganddyn nhw'r wybodaeth sydd ei hangen i ffurfio barnau ar y ddarpariaeth sy'n cael ei harolygu.”

Er ei fod yn cael ei weld fel cam cadarnhaol, amlygodd rhai ohonynt bwysigrwydd sicrhau capasiti staffio, cymorth a hyfforddiant i ymgymryd â rôl yr arolygydd cymheiriaid: “Mae angen i sefydliadau fod yn barod i ryddhau staff i fod yn arolygwyr cymheiriaid hefyd.” Awgrymwyd y byddai angen hyfforddiant a chymorth cynhwysfawr ar ymarferwyr sy'n dod yn arolygwyr cymheiriaid er mwyn ymgymryd â'r cyfrifoldebau ychwanegol.

Pan ofynnwyd “Pa fath o adroddiad(au) arolygu fyddai'n ddefnyddiol?”, roedd thema gref: “Cryno ac adeiladol heb fod yn lleihaol”. Rhaid i'r adroddiadau fod yn hawdd mynd atynt (ar gael ar-lein), ar gael i bawb (lle bo modd), yn hawdd eu darllen a'u deall, a chael set glir o gamau adeiladol – yn gysylltiedig â hyfforddiant, lle mae angen.


Wedyn, gofynnnon ni a ddylid anelu ein hadroddiadau arolygu at weithwyr proffesiynol gwaith ieuencid a/neu bobl ifanc neu gynulleidfaoedd eraill. Roedd bron i ddau o bob tri o'r ymatebwyr (65%) yn credu y dylid eu hanelu at y **naill a'r llall**. Roedd 14% o ymatebwyr yn meddwl y dylid anelu'r adroddiadau at **ymarferwyr gwaith ieuencid**, gyda'r gweddill, sef 21%, yn ffafrio **cynulleidfaoedd eraill**. Roedd y 'cynulleidfaoedd eraill' hyn yn cynnwys:

- Rhanddeiliaid
- Sefydliadau Partner
- Rhieni

Hoffai sawl ymatebwr i'r adroddiadau fod ar gael i'r cyhoedd, gan fod “angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn gyffredinol am bwysigrwydd a gwerth gwaith ieuencid.”

Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig i beidio â chael graddau crynodol yn ein hadroddiadau arolygu. Roedd saith deg chwech y cant o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf (36%) neu'n cytuno (40%) â'r cynnig, dim ond deg y cant oedd naill ai'n anghytuno (4%) neu'n anghytuno'n gryf (6%). Roedd un deg pedwar y cant o ymatebwyr yn ansicr neu nid oedd ganddynt farn.

Ffigur 7: Rydym yn cynnig peidio â chael graddau crynodol yn ein hadroddiadau arolygu. Beth yw eich barn am y cynnig hwn?



Wedi ateb: 50 Wedi hepgor: 6

Roedd ymdeimlad cryf fod graddau crynodol, er eu bod weithiau'n fuddiol, yn gallu "creu hinsawdd o unrhyw beth o ofn a digalondid i hunanfodhad" a'u bod yn arwain yn anochel at wneud cymariaethau. Yn aml, mae'r cymariaethau hyn yn annheg neu hyd yn oed yn anghywir gan ei bod "yn anodd cymharu afalau a gellyg."

Mae'r diffyg unfurfaeth yn rhan o natur darpariaeth gwasanaethau gwaith ieuenctid yn ei gwneud yn anodd iawn datblygu system raddio effeithiol a theg.

Pan ofynnwyd am faterion eraill, nad oeddent wedi'u cynnwys yn y cwestiynau a ofynnwyd yn flaenorol yn yr holiadur, roedd y materion allweddol a godwyd yn cynnwys:

- Y trydydd sector – Teimlwyd bod y sector hwn yn wahanol ac na ddylai fod yn rhan o'r un broses arolygu â'r awdurdodau lleol. Rhaid ystyried datblygu prosesau arolygu penodol ar gyfer y sector hwn.
- Recriwtio arolygwyr cymheiriaid – Mae angen gweithwyr profiadol a gwybodus ar gyfer y rôl hon.
- Dylid cynnal arolygiadau dros sawl 'ymweliad', dros gyfnod, yn hytrach na fel digwyddiadau untro.
- Mae angen mwy o gysondeb a chyfleu terminoleg, canllawiau a graddfeydd amser yn well.

Pan ofynnwyd i ymatebwyr roi adborth ar unrhyw agweddau eraill ar drefniadau arolygu Estyn, amlygwyd dau faes allweddol, sef:

- Cydweithio – Rhaid gwneud y broses arolygu 'gyda' darparwyr, nid 'iddyn nhw'. Hefyd, mae angen cyfarwyddyd clir, cyn cynnal arolygiadau, ar beth fydd yn cael ei arolygu.

- Recriwtio staff – Roedd pryder cyffredinol am brinder pobl yn dod i mewn i'r proffesiwn Gwaith Ieuenctid a'r effaith uniongyrchol anochel y bydd hyn yn ei chael ar ddarparu gwasanaethau.

4.3 Effaith y cynigion

Pan ofynnwyd am effaith bosibl y cynigion ar y Gymraeg, codwyd sawl pwynt. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Ar hyn o bryd, mae ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau yn Gymraeg yn is na'r ddarpariaeth yn Saesneg. Mae hyn yn bennaf oherwydd prinder ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg – neu o leiaf yr anallu i fodloni'r gofynion mewn lleoliad penodol ar gyfnod amser penodol bob amser.
- Cytunir yn gyffredinol y dylai'r cynigion gryfhau'r ddarpariaeth gwasanaethau yn Gymraeg, gan y bydd hyn, yn ôl pob tebyg, yn rhywbeth a fydd yn ffurfio rhan o'r broses arolygu – *dylai* hyn annog cynnydd yn y ddarpariaeth gwasanaethau yn Gymraeg: er y bydd angen hyfforddiant a chymorth sylweddol i wireddu hyn.

Pan ofynnwyd am effaith bosibl y cynigion ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng gwahanol bobl, cododd ymatebwyr y pwyntiau canlynol:

- Yn unol â'r effaith ar y Gymraeg, *dylai'r* cynigion arwain at gynnwys mesurau yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn y broses arolygu, ac felly, rhoi mwy o sylw iddynt. Ond eto, fel yn achos y Gymraeg, er mwyn gwella pethau, bydd angen hyfforddiant a chymorth.
- Dangosodd llawer o ymatebwyr fod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ffurfio sylfaen gwaith ieuenctid a bod y gwerthoedd a'r agweddau hyn yn rhywbeth y maent yn eu byw a'u hanadlu bob dydd.

4.4 Gweithgarwch dilynol posibl

Rhoddodd 27 o ymatebwyr fanylion cyswllt, ac maent wedi datgan y byddent yn hapus i Estyn gysylltu â nhw i drafod eu hadborth.

5. Y Camau Nesaf

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn helpu llywio'r trefniadau arolygu newydd ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid o 2024 ymlaen.